**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/DET/1898/19

Bethan Sayed AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

21 May 2019

Annwyl Bethan,

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 30 Ebrill ynghylch cais y BBC, ar lefel y DU, i lacio y gofyniad presennol o 100% o gynnwys sgyrsiol ar orsafoedd radio rhwng 07.30 ac 08.30 yn ystod yr wythnos.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae Gweinidogion Cymru a swyddogion wedi trafod y mater hwn gyda BBC Cymru Wales ac Ofcom Cymru. Rydym wedi derbyn sicrwydd na ddaeth y cais gan BBC Cymru Wales ac nid yw'n gysylltiedig yn benodol â Radio Cymru na Radio Wales ond yn hytrach i ganiatáu mwy o hyblygrwydd i orsafoedd unigol y BBC ledled y DU ymateb i anghenion newidiol gwrandawyr mewn gwahanol ardaloedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai gwrandawyr yng Nghymru glywed y trafodaethau dyddiol o safon uchel am wleidyddiaeth a materion cyfoes gan y BBC a darparwyr eraill, sy'n llywio ein bywydau. Rydym wedi atgoffa Ofcom o'i ymrwymiadau i gadw'r BBC i'w ymrwymiad Siartr i ddarparu i gwledydd y DU a byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau o fewn y sector darlledu yng Nghymru, gan gynnwys radio, ac yn parhau i godi pryderon pan fyddwn yn teimlo ei bod yn briodol gwneud hynny.

Rydym hefyd wedi pwysleisio gydag Ofcom a Llywodraeth y DU na fyddem yn dymuno gweld y rheolau cyfredol ar y ddarpariaeth leol ar radio masnachol yn cael eu llacio ymhellach nac yn cael eu dileu. Mae'n hanfodol bod lefel briodol o ddarpariaeth leol, yn benodol felly o ran newyddion lleol. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach yng Nghymru o ystyried gwendid y cyfryngau print yng Nghymru a'r diffyg sylw i faterion Cymreig ym mhapurau newyddion y DU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei ateb yn y Gyrmaeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

Hefyd, fel a ddywedwyd wrth y Pwyllgor, pan fydd trwyddedau teledu a radio yn cael eu dyfarnu neu’n cael eu hadolygu ar gyfer gorsafoedd yng Nghymru, dylid rhoi ystyriaeth briodol i natur ddwyieithog Cymru a phwysigrwydd y Gymraeg yng nghyd-destun y nod sydd gan Lywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism